Microsoft Office am ddim!
Free copy of Microsoft Office!

1
2
3

Mewngofnodi i e-bost Office 365 chi a dewis "Install Office"
Login to your Office 365 email account and select "Install Office"

WYTHNOS
EUSKARA
WEEK
CELEBRATING WELSH & BASQUE
LANGUAGE AND CULTURE
IONAWR
JANUARY
7 - 14

Rhaglen Bro Ddyfi / Programme in Bro Ddyfi

Gig Gwlad y Basg & Chymru Basque & Welsh celebration gig	Nos Wener/ Fri 6 Jan/ Ionawr 7.30	Y Llew Gwyn Tal-y-Bont	Bitartean Osian Morris & Nic Davalan Cerys Hafana	£7/ £5	01970 832304
Lansiad Arddangosfeydd Exhibition launch	Dydd Sadwrn/ Sat 7 Jan/ Ionawr 2.30	Canolfan Owain Glyndwr Machynlleth	Iñaki Perurena Gwyn Jones Zélie Flach	Am ddim/ free	01650 511778
Cyngerdd fawreddog/ Grand Concert	Nos Sadwrn 7 Jan/ Ionawr 7.30	Y Tabernacl Machynlleth	Bidaia Gwilym Bowen Rhys Iñaki Perurena Osian Morris & Nic Davalan Rhian Bebb & Cerys Hafana	£10/ £7	01654 703355
Barddoniaeth, gwin & pintxos/ Poetry, wine & pintxos	Nos Sul/ Sun 8 Jan/ Ionawr 7.30	Caffi Alys Machynlleth	Iñaki Perurena ac eraill/ and others	Am ddim/ free	01654703336
Noson Ffilm Film Night	Nos Lun 9 Jan/ Ionawr	Y Tabernacl Machynlleth	Ffilmau byr Cymru a Gwlad y Basg	£5/ £3.50	01654 703355
Gwledd/ Feast Nafarroa & Bro Ddyfi	Nos Fawrth 10 Jan/ Ionawr 7.30	Caffi Alys Machynlleth	Bwyd a diod Gwlad y Basg a Chymru Food and drink from the Basque Country and Wales	£10 y person £32 y bwrdd/ table for four	01654703336



@brohyddgen



26 Diwrnod Plant Mewn Angen

**Llongyfarchiadau i bawb am gasglu
£508.01 at yr achos da yma eleni!**

**Congratulations to everyone for
their hard work to raise £508.01 for
this worthy cause this year!**



Unwaith eto eleni daeth disgyblion ac athrawon Ysgol Bro Hyddgen at ei gilydd ar y ddau gampws i gasglu swm anrhydeddus o arian at Blant Mewn Angen. Ar y campws cynradd y thema oedd pyjamas wrth i'r plant a'r staff gyrraedd yr ysgol yn eu dillad nos. Ar y campws uwchradd bu'r chweched dosbarth wrthi'n ddiwyd yn paratoi gweithgareddau hwyliog megis y 'crossbar challenge' yn ystod yr amser egwyl a chystadleuaeth meimio i gerddoriaeth dros yr awr ginio. Braf iawn oedd gweld talentau perfformio disgyblion a staff Bro Hyddgen yn fyw ac yn iach a'r cwbl wrth gwrs at achos da.

Dywedodd Mr Dafydd Jones, y Pennaeth, ei fod yn falch iawn o bawb ym Mro Hyddgen am fod mor garedig. "Braf iawn yw gweld yr ysgol yn codi cymaint o arian mewn cyn lleied o amser sy'n dangos yn glir pa mor frwdfrydig a gweithgar yw disgyblion a staff yr ysgol. Mae diwrnod o'r fath wir yn codi calon wrth weld y disgyblion a'u teuluoedd yn rhoi beth bynnag sydd ganddynt at elusen sy'n helpu rhai llai ffodus na ni."

Once again this year, Ysgol Bro Hyddgen's pupils and staff came together in their usual charitable fashion to raise £508.01 for Children in Need. On the primary campus, the theme was pyjamas as both children and staff came to school in their dressing gowns and colourful pjs! On the secondary campus the sixth form students worked tirelessly to organise various events such as a 'crossbar challenge' during the morning break and an extraordinary 'lip-sync competition' during the lunch hour when both students and teachers showed off their performing talents!

Mr Dafydd Jones, head teacher, praised the pupils and staff for being so kind-hearted saying "I am very proud of the school – raising so much money in so little time shows how determined and hardworking our pupils and staff are. It is a joy to see these young people giving whatever they have to help others in need. I would like to thank the staff and sixth formers for organising the activities and to the children and their families for their generosity."



Children in Need





Llongyfarchiadau i Emily Toon am ennill gwobrau Gymnasteg. Ymlaen i'r rownd nesaf yng Nghaerdydd / Congratulations to Emily Toon on winning prizes in Gymnastics! On now to the next stage in Cardiff .



Llongyfarchiadau i Flwyddyn 7 am guro Ysgol Uwchradd Builth Wells 2-1..on to the next round. Chwaraewr y gem = Aron Jones

Cynrychiolwyr Chwaraeon Cyngor Ysgol

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am gael eu dewis fel cynrychiolwyr Chwaraeon Cyngor yr Ysgol

- Bl.7 – Aoife Mathews + Kaleb Wells
- Bl.8 – Mared Griffiths + Jake Thomas
- Bl.9 – Catrin Pughe + Gwion Morgan
- Bl.10 – Rose Williamson + Craig DeBell
- Bl.11 Lois Jones + Callum Thornton
- Bl.12 Ania Parry, Maya Kenny + George Horne
- Bl.13 – Niamh Cumming + Jake Hinge

Adroddiad ar gêm yn erbyn Ysgol y Berwyn

Ddydd Mercher rhai wythnosau yn ol bellach, daeth Ysgol Y Berwyn, Bala i Fachynlleth i chwarae gêm o Rygbi yn erbyn bechgyn Blwyddyn 10 a 11. Roedd yn gêm galed iawn ac yn anffodus enillodd Bala gyda sgôr o 17-12.

Sgoriodd Rhys Jones o Flwyddyn 11 y cais cyntaf i Fachynlleth ond yn anffodus method Harry Cottam y gic trosi. Yn yr ail hanner hefyd sgoriodd Craig DeBell o flwyddyn 10 yr ail gais a roedd y gic trosi y tro yma yn un hawdd i Harry.

Er ein bod wedi colli mi oedd y gêm yn hwyl, a roedd Bala wedi chwarae'n dda.

Twrnament Pêl Droed y Gymuned 5x60

Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn y Ganolfan Hamdden ar ôl i Kara 5x60 drefnu twrnament Pêl droed i'r gymuned. Roedd 8 tim i gyd, gyda busnesau lleol yn ymuno.



Adran Addysg Gorfforol - PE Department

Remember to follow us on Twitter! @AGHyddgenPE

29



Llongyfarchiadau i Flwyddyn 7 am guro John Beddoes 3-1
Chwaraewr y gêm = Aron Jones



Disgyblion TGAU yn eu cit chwaraeon newydd /
GCSE students showing off their new PE kit



Perfformiad da gan Ferched Bl.11 yn curo Tywyn 27-2.

Sport School Council

Congratulations to the following pupils for being chosen as the Sport School Council

- Yr.7 – Aoife Mathews + Kaleb Wells
- Yr.8 – Mared Griffiths + Jake Thomas
- Yr.9 – Catrin Pughe + Gwion Morgan
- Yr.10 – Rose Williamson + Craig DeBell
- Yr.11 Lois Jones + Callum Thornton
- Yr.12 Ania Parry, Maya Kenny + George Horne
- Yr.13 – Niamh Cumming + Jake Hinge

Report on the game against Ysgol y Berwyn

On Wednesday a few weeks ago Ysgol y Berwyn in Bala came to our school to play a game of rugby against year 10 and year 11. The game was a very hard one and unfortunately Bala won 17-12. Rhys Jones from Year 11 got the first try for Machynlleth but unfortunately Harry Cottam missed the penalty kick. In the second half Craig DeBell from year 10 got the second try and a easy one for Harry. Even though we lost , it was a fun game and Bala did play well.

5x60 Football tournament

A very successful evening in the Leisure Centre after Kara 5x60 arranged a 5 a side football Tournament for the community. 8 teams joined all together, with local businesses competing. It was a close tournament with the year 11 boys winning on penalties.



@brohyddgen





Bl. 9 a 11 yn brwydro yn erbyn Dolgellau. Ennill 1 a cholli 1. "Men of the Match" = Benj Davies a Guto Jones.

Year 9 and 11 battling it out with Dolgellau. Won 1 and lost 1. Man of the match = Benj Davies a Guto Jones.



Prynhawn caled gyda blwyddyn 10 yn erbyn y tim talentog o'r Drenewydd. Aeth blwyddyn 8 ar y blaen ddwy waith ond gorffen 2-2.

A tough afternoon for the year 10 side against a talented Newtown team. Year 8 went ahead twice but finish 2-2 – Welsh Cup.



Tim Blwyddyn 9 a wnaeth gystadlu yn erbyn Ardudwy, Harlech. Plenty of hail, rain and wind!



Ymweliad â Phrifysgol Aberystwyth

31




Ddydd Mercher aeth criw o'r chweched dosbarth i Brifysgol Aberystwyth i gael blas o'r cwrs gradd Addysg Gorfforol sy'n cael ei gynnig yno. Cawsom gyfle i wneud arbrawf ymarferol o gyfaint ocsigen. Roedd y gweithdy hwn yn fuddiol iawn oherwydd roedd yn gyfle i mi ehangu fy nealltwriaeth o'r pwnc, a chael defnyddio adnoddau gwyddonol a drud iawn.

Ania Parry (Disgybl Bl.12)

At the university we looked at the high tech equipment in various laboratory and how it was used. We did some tests such as VO2 max and the components of air breathed out in an experiment. This was very beneficial to me as a AS sport student.

Maya Kenny + George Horne (Year 12 Pupils)

**Diolch i Brifysgol Aberystwyth
am ddiwrnod gwych!**





Diolch i Lanidloes am y gemau yn erbyn Blwyddyn 8,9 a 10. Bu dros 35 o fechgyn yn chwarae.



Llongyfarchiadau i Meggan Parkes ar ei llwyddiannau yn Gymnasteg.
Congratulations to Megan Parkes on her success in gymnastics.



The magic run comes to an end, but still a fantastic effort from year 7 to come second in Powys. Da iawn chi, ond dal i wenu!



Cwrs Awyr Agored Glan Llyn

33



Aeth criw BTEC Awyr Agored BI 12 & BI13 i Lanllyn i gael blas ar weithgareddau dŵr.

BTEC Sports group went to Glan-llyn for the week

Aeth criw BTEC Awyr Agored i Lanllyn i gael blas ar weithgareddau dŵr fel rhan o'u cwrs ym mlwyddyn 12 a 13. Roedden ni yna o ddydd Llun tan ddydd Gwener ar wythnos llawn dop o weithgareddau gwahanol megis Ceufadu, Canwio, Padl-Fyrddio ac yn olaf Hwyllo. Fe wnaethom ddysgu a datblygu llawer o sgiliau gwahanol gyda help yr arweinyddion penodol. Yn yr wythnos hon, fe wnaethom lwyddo drwy gwblhau uned o waith Chwaraeon Awyr Agored sef Uned 33. Cawsom ni hwyl fawr yn Glanllyn gyda'r holl weithgareddau roeddwn i wedi eu gwneud. Yr un peth nad oeddwn yn mynd i golli oedd trio rhoi gwisg gwlyb (wet-suit) ymlaen pan oedd o'n wlyb!!

Steffanie Morris

(Disgybl Chwaraeon Awyr Agored)

During the 14th to the 18th of November, the year 12 and 13 BTEC Sports group went to Glan-llyn for the week. Throughout the week we participated in many different activities which were great fun and it gave us, as year 12 and year 13, a whole new experience which was really worthwhile. Throughout the week, we completed a total of four activities which were; kayaking, canoeing, sailing and paddle boarding. All of these activities were super fun, and everyone had a great time.

Looking back at the trip, the best activity I took part in was definitely the paddle boarding; this was because the paddle boarding was the activity which had the highest chance of people falling into the water. However, sadly everyone got the hang of it very quickly and no one fell in. However, the days were very tiring, and in the night we did lots of work. After the work, we were able to relax and one night we all, including Miss Fleming, watched Casino Royale.

Overall, it was a great experience and we all can't wait to back in March. We are all very thankful to the school, Miss Fleming, Mr Jones and Glan-Llyn for letting us take part in the wonderful opportunity.



@brohyddgen



34

Gwaith Celf a Dylunio, Tecstilau



Fel rhan o waith Celf a Dylunio, Tecstilau, mae dosbarth Mrs Catrin Hughes wedi bod yn gwneud arsylwadau o'u hamgylchedd, Machynlleth. Mae'r dosbarth wedi rhyfeddu at siapiau diddorol a phensaerniaeth ddyrys o amgylch y dre. Diddorol hefyd oedd clywed am hanes lleoliad siop gyn-taf Laura Ashley.

"Roedd yn ysbrydoliaeth i gael dod o hyd ac i weld patry-mau diddorol ar hyd y stryd fawr." Keri Mills

"Rwyf yn cerdded trwy'r dref bob dydd, ond erioed wedi sylwi ar hanner y siapiau diddorol sydd ar yr adeiladau." Sophie Dafydd.

As part of Art and Design, Textile course, Mrs Catrin Hughes' class have been making observational drawings of their environment, Machynlleth. The whole class has marveled at the interesting shapes and complex architecture around town. It was also interesting to hear about the history of Laura Ashley first shop.

"It was inspiring finding and seeing interesting patterns along the high street." Keri Mills.

"I pass through town everyday, but have never noticed half of the interesting shapes on the buildings." Sophie Dafydd

Are you being bullied?
Email: bullying@brohyddgen.powys.sch.uk

Ydych chi yn cael eich bwlio?
Ebostiwch: bwlio@brohyddgen.powys.sch.uk



Gwerthuso Cynllun COBWEB

35

Diolch yn fawr i'r tîm COBWEB am y cyfle i fod yn rhan o gynllun mor arebnnig!



Yn ystod y tymor, cafodd y dysgwyr a oedd yn ffodus i gael eu dewis i fynd i Wlad Groeg y siawns i werthuso'r profiad ac i gynnig adborth i dîm Cobweb am y rhaglen COBWEB. Yn ystod y sesiwn, dysgodd yr 8 disgybl am bwysigrwydd Nodau Byd-Eang UNESCO.

During the term, the pupils who were fortunate enough to be chosen to go to Greece, had the chance to evaluate the experience and provide feedback about the trip and the app to the Cobweb team. During the session, the 8 pupils learnt about the UNESCO Global Goals.

Ymweliad Byd Wraig

Diolch yn fawr i Alison Sayers (Cyn Fyd-Wraig) am ymweld â dosbarth blwyddyn 10 Datblygiad Plentyn Dydd Mawrth 29.11.16.

A big thank you to Alison Sayers (former midwife) for visiting the year 10 child development class on Tuesday 29.11.16



@brohyddgen



36 Dysgwyr yr Wythnos

Dyddiad Date	Enillwyr Blaenorol Blwyddyn 8 Year 8 Previous Winners	Enillwyr Blaenorol Blwyddyn 9 Year 9 Previous Winners
03/10/16	Zach Rose	Nina Bussink
10/10/16	Zach Rose	Nina Bussink
17/10/16	Jessica Chick	Nina Bussink
24/10/16	Morgan Vaughan	Nina Bussink
7/11/16	Chloe Duckett & Niamh Williams	Nina Bussink
14/11/16	Chloe Duckett	Nina Bussink
21/11/2016	Chloe Duckett	Nina Bussink
28/11/2016	Johann Jones	Celyn Overton-Jones
05/12/2016	Jake Thomas	Lily Shone

Hoffai Miss Good longyfarch y dysgwyr canlynol am fod yn ddysgwyr yr wythnos dros y tymor diwethaf. Da iawn chi!

Miss Good would like to congratulate the following students for being student of the week over the term. Well done you!

Clwb Gwaith Cartref / Homework Club

"Mae'r clwb gwaith cartref yn lle gyda llawer o ysbridolaeth. Mae Sam yn rhoi croeso mawr i ni ac yn ein helpu ni gyda ein gwaith ac ein cynnydd. Mae hi yn glen iawn ac yn derbyn pawb i'r clwb. Mae hi yn helpu fi yn bersonol os dwi yn gweld y gwaith yn anodd ac mae hi yn gwneud i ni chwerthin hefyd. Dewch i'r clwb bob diwrnod rhwng 3:25 a 4:30."

"Homework club is an inspirational place to be! Sam is welcoming she is helpful and she is always encouraging us to do really well. She nice and polite she accepts everyone in the homework club. Sam helps us if we are struggling and she makes us laugh! Come to club every day after school from 3.25 to 4.30pm. Homework club is a joyful place to come."



Top of the Bench 2016

37

Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm o Ysgol Bro Hyddgen am ennill y wobr crisialau yng Nghystadleuaeth Cemeg Top of the Bench yng Ngregynog.

Massive congratulations to the team from Ysgol Bro Hyddgen for winning the crystal competition at the Top of the Bench Chemistry competition in



Llongyfarchiadau enfawr i'r tîm o Ysgol Bro Hyddgen am ennill y wobr crisialau yng Nghystadleuaeth Cemeg Top of the Bench yng Ngregynog. Gwnaeth Abi Edwards, Cerys Hickman, Joe Lewis ac Ieuan Jones hefyd gyrraedd y rownd derfynol ar ôl curo tîmau eraill, ond collon nhw allan ar ôl brwydr ddewr yn erbyn Ysgol Penglais.

Massive congratulations to the team from Ysgol Bro Hyddgen for winning the crystal competition at the Top of the Bench Chemistry competition in Gregynog. Abi Edwards, Cerys Hickman, Joe Lewis and Ieuan Jones also reached the final round after beating other teams, but missed out after a brave battle with Ysgol Penglais.

Wythnos Gwrth Fwlio

Bu disgbylion campws cynradd Ysgol Bro Hyddgen yn gwisgo glas i godi ymwybyddiaeth o wythnos gwrth Fwlio. Mae disgylbion Cyfnod Allweddol 2 yn gweithredu rhaglen gwrth fwlio KiVa a ddyfeiswyd yn wreiddiol yn y Ffindir. Ystyr KiVa yw "bod yn garedig".

Pupils from the primary campus of Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth wore blue to raise awareness for Anti Bullying week. The Junior Department used an anti bullying programme called KiVa.

KiVa is a research based anti bullying programme developed by the university of Turku, Finland. The KiVa program has

been shown to reduce both self and peer reported bullying significantly. It has shown also to have a positive effect on academic motivation and achievement. KiVa also reduces anxiety and depression and has a positive impact on children's relationships with their peers.



@brohyddgen



38 Y Stori Fawr

Sioe Nadolig y Cyfnod Sylfaen “Y Stori Fawr”

Foundation phase christams concert “Y



The Foundation Phase pupils of the primary campus of Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth have been practicing for their Christmas Concert - 'Y Stori Fawr'. It was wonderful to see these young children performing confidently on stage by introducing the true meaning of Christmas.

Disgyblion y Cyfnod Sylfaen campws cynradd Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth yn paratoi at eu cyngerdd Nadolig 'Y Stori Fawr'. Hyfryd gweld y plant ieuengaf yn perfformio mor hyderus ar lwyfan, gan gyflwyno neges y Nadolig yn llawn asbri.

Gweithdy “Talking Fight” Workshop

Fel rhan o'r rhaglen ABaCh yng nghyfnod allweddol 3, cafodd dysgwyr Blwyddyn 9 bore diddorol iawn yng ngweithdy gan gwmni Taking Flight. Roedd y sesiwn yn addysgiadol iawn am droseddau casineb yn erbyn pobl ag anableddau.

As part of the PSE programme in Key Stage 3, Year 9 pupils were given the opportunity to take part in the Taking Flight workshop. The educational session taught pupils about hate crimes against people with disabilities.



Gweithdy Shocktober

39

Cynhaliwyd gweithdai buddiol tu hwnt yn y Campws Cynradd gan Martin Roberts ar ran y Gwasanaeth Ambiwllans fel rhan o raglen Shocktober



Gweithdy Shocktober

Cynhaliwyd gweithdai buddiol tu hwnt yn y Campws Cynradd gan Martin Roberts ar ran y Gwasanaeth Ambiwllans fel rhan o raglen Shocktober. Y nod oedd i hyfforddi plant ynglŷn â sut a phryd i alw ambiwlans mewn argyfwng, a chafwyd cyfle hefyd i ddysgu technegau CPR a gosod claf mewn safle adferol. Roedd yr hyfforddiant yn hwyllog ac yn werthfawr iawn. Diolch i Martin am gynnal y gweithdai.

Shocktober

A series of workshops were held recently in every class on the Primary Campus as part of the Shocktober initiative. Martin Roberts, on behalf of the Ambulance Service, delivered training and guidance on when and how to call for an ambulance. Pupils were also taught CPR and how to place a patient in the recovery position. Thank you to Martin for delivering this valuable training.

Cystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd

Cystadleuaeth Pêl Rwyd yr Urdd

Ar nos Iau 1 Rhagfyr cynhaliwyd cystadleuaeth pêl rwyd Rhanbarth Maldwyn yng Nghanolfan Hamdden Llanfair Caereinion. Chwaraeodd y tîm o'r Campws Cynradd gemau caled a chyffrous yn erbyn tîmau o ysgolion Trewern, Dyffryn Trannon a Chegida. Er na lwyddodd y tîm gyrraedd y rowndiau terfynol, braf oedd gweld y plant yn mwynhau'r cystadlu ac yn chwarae gyda brwdfrydedd.

Urdd Netball Tournament

On Thursday 1 December, the Maldwyn Regional Urdd netball tournament was held at Llanfair Caereinion Leisure Centre. The Primary Campus team played well against teams from Terwern, Dyffryn Trannon and Guilsfield School. Despite not reaching the final rounds, the team enjoyed competing and played with great enthusiasm and sportsmanship.



@brohyddgen



Cystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd



Ddydd Mawrth 11 Hydref cynhaliwyd cystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Bro Ddyfi.

On Tuesday 11 October the Urdd Netball tournament took place at Bro Ddyfi Leisure Centre

Cystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd

Ddydd Mawrth 11 Hydref cynhaliwyd cystadleuaeth pêl rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Bro Ddyfi. Bu cystadlu brwd rhwng ysgolion y Dalgylch a chafwyd gemau cyffrous ac agos! Bu tri thîm pêl rwyd o'r campws cynradd yn cystadlu. Llongyfarchiadau calonnog i dîm pêl rwyd Bro Hyddgen C a ddaeth yn fuddugol, a phob dymuniad da iddynt yn y rownd nesaf ym mis Rhagfyr.

Urdd Netball competition

On Tuesday 11 October the Urdd Netball tournament took place at Bro Ddyfi Leisure Centre. Three teams from the primary campus took part in the competition between the cluster schools. After several competitive and exciting games between the teams, Bro Hyddgen C were announced the winners. Congratulations to all the teams for their effort and good luck to Bro Hyddgen C who will compete in the next round in December.



Rhwydwaith Seren

41

Rhwydwaith Seren ar gyfer myfyrwyr galluog Seren Network for very able students



Dewiswyd Lleucu Morgan a minnau (y ddau ohonom o flwyddyn 12) i fynychu cynhadledd Rhwydwaith Seren yn Llandarcy yn sgil ein canlyniadau TGAU canmoladwy iawn. Bwriad y gynhadledd oedd i annog myfyrwyr ifanc o Gymru i wneud cynnig i fynychu prifysgolion gorau'r wlad fel Caergrawnt, Rhydychen a phrifysgolion Sutton Trust eraill. Yn y gynhadledd, cawsom syniad o sut brofiad yw hi i astudio ar lefel prifysgol, a derbyniom gyngor ac adnoddau perthnasol i'n cyrsiau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch.

Cawsom y cyfle i fynychu dau weithdy, a dewisais i Cemeg a Cherddoriaeth. Roedd y siaradwr am Gemeg yn dod o Brifysgol Abertawe a siaradodd gyda ni am titaniwm deuocsid. Er nad yw hwn yn rhan o'r fanyleb ar hyn o bryd, cawsom flas ar beth gall gradd mewn Cemeg ei gynnig.

Roedd yr ail weithdy y mynychais i'n canolbwyntio ar Gerddoriaeth, ac o'r dechrau, derbyniom lwyth o adnoddau, gan gynnwys am harmoneiddio ac am strwythur ffwgiau; roedd yr adnoddau hyn yn uniongyrchol berthnasol i'n cwrs Uwch Gyfrannol. Gwnaethom rhywfaint o waith harmoneiddio yn steil Bach, a chynigwyd cymorth pellach i'r dyfodol i ni.

Er nad yw Rhydychen na Chaergrawnt yn cynnig cyrsiau perthnasol i mi, mae'r gynhadledd hon wedi rhoi llawer i mi'i ystyried yn nhermau fy addysg uwch, ac rwy'n werthfawrogl iawn o fod wedi cael ei mynychu. Gruffydd Behnan.

Lleucu Morgan and myself (both from year 12) were chosen to take part in Seren's event due to our very pleasing recent GCSE results. The aim of the conference was to encourage more young students from Wales to put in offers to Oxford, Cambridge and other Sutton Trust universities. At the conference, we were provided with an insight into further study at university level, and we were given advice and recourses relevant to our AS and A-level courses.

We had the option of attending two workshops, and I chose Chemistry and Music. Our Chemistry speaker was from the University of Swansea and specialized in material chemistry, and spoke to us about the practicalities of titanium dioxide. Although this is not part of our current syllabus, it gave us a taste into what a chemistry degree could offer.

My second workshop for the day was Music, and from the start we were given plenty of resources, such as on harmonisation and the structure of fugues; these materials were directly linked to the WJEC AS course. We built upon Bach style harmony and were offered further support if required.

Although Oxford or Cambridge don't offer degree courses which are appropriate for me, the course has given me plenty to think about in terms of how I want to continue my education and I am very grateful for the opportunity.

Gruffydd Behnan.



Da iawn bawb a phob lwc i'r canlynol yn y rownd derfynol: / Congratulations to everyone in getting through to the final!

- **Blwyddyn 7 - 1af: Llio Evans**
- **Blwyddyn 8 - 1af: Branwen Roberts**
- **Blwyddyn 9 - 1af: Lily Shone**
- **Blwyddyn 10, 11, 12 – 1af: Gruff Behnan**



Mae'r ffedogau ymlaen a'r frwydr am goron prif bobydd Bro Hyddgen 2016 yn ei hanterth! Wrth i ni nesau at y ffeinal gwelwyd ymdrechion o'r safon uchaf. Gyda chacennau amryliw, tartenni, Éclairs a Macaroons yn cael eu perffeithio cyn eu beirniadu, nid tasg hawdd oedd dod o hyd i ennillwyr ymysg y pobyddion ifanc. Ychydig yn hŷn yw cystadleuwyr y mis nesaf wrth i aelodau'r staff frwydro i greu danteithion blasus!

Ar ôl llwyddiant ysgubol blynyddoedd blaenorol, nid anodd oedd dod o hyd i feirniad awyddus. Teg yw dweud fod Miss Angharad Elias a Miss Catrin Jones wrth eu boddau yn blasu'r campweithiau. Dymuna Bwyllgor Bake Off Bro Hyddgen ddiolch i'r ddwy am eu gwaith diflino. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch hefyd i Mrs Catrin Hughes sydd wrthi'n ddiwyd yn hyfforddi a chynghori'r cystadleuwyr brwd.

Llongyfarchiadau mawr iawn i bawb sydd wedi cystadlu hyd yn hyn wrth i'r safon gyrraedd copaon nas gwelwyd o'r blaen yn hanes y Bake Off gyda phawb yn gwneud eu gorau i greu danteithion o'r radd flaenaf!

Da iawn bawb a phob lwc i'r canlynol yn y rownd derfynol:

Blwyddyn 7 - 1af: Llio Evans

Blwyddyn 8 - 1af: Branwen Roberts

Blwyddyn 9 - 1af: Lily Shone

Blwyddyn 10, 11, 12 – 1af: Gruff Behnan

The fight for the Bro Hyddgen Bake Off crown has started! As we approach the final, we can see very high standards of baking from our challengers with various cakes to judge. It is hard to find the winner in the middle of such talented young people and this task is not a easy one. However, as the competition nears its end the staff will be next to compete to create tasty creations.

Because of the previous success of the bake-off, it was not hard to find eager judges to taste the pupils cakes, and to be honest Miss Angharad Elias and Miss Catrin Jones were more than happy to jump at the opportunity to taste all of the cakes. The Bake Off committee would like to thank them for all their hard work. The committee would also like to thank Mrs Catrin Hughes who has been tirelessly assisting and training the pupils for the competition.

A big congratulations to everyone who has competed so and reached this stage. Congratulations and the best of luck to the following in the final round:

Year 7 - 1st: Llio Evans

Year 8 - 1st: Branwen Roberts

Year 9 - 1st: Lily Shone

Year 10, 11, 12 – 1st: Gruff Behnan





Llefaru dan 16 yn eisteddfod ffermwyr ifanc

Llongyfarchiadau mawr i Mared - 1af am lefaru dan 16 yn eisteddfod ffermwyr ifanc

Congratulations to Mared, year 12, for winning the reciting competition in the young farmers Eisteddfod.



Dathlu Diwrnod Roald Dahl



Gwelwyd llu o gymeriadau diddorol ar y Campws Cynradd ddydd Mawrth 13 Medi ar gyfer dathlu canmlwyddiant geni Roald Dahl. Cafodd y plant gyfle i wisgo fel cymeriadau o lyfrau'r awdur a chawsant flas ar lu o weithgareddau yn ystod y dydd. Cynhyrchwyd bisgedi siocled blasus gan rai, tra bu eraill yn chwarae rôl. Buont yn dysgu am fywyd a gwaith yr awdur ac yn dangos eu gwybodaeth mewn cwis. Braf oedd gweld brwdfrydedd a mwynhad y plant tuag at ddarllen! Llongyfarchiadau arbennig i Max Williams (Bl 3) a Frankie Jones (Bl 1), enillwyr y gwobrau am y gwisgoedd gorau yn y Cyfnod Sylfaen a CA2. Gwisgodd Max fel Augustus Gloop a'i geg yn siocled i gyd; a daeth Frankie i'r ysgol yn nillad gorau Roald Dahl ei hun!

Roald Dahl Day Celebrations

Tuesday 13 September was a truly phizz-whizzing day on the primary campus as pupils celebrated the centenary of the birth of Roald Dahl by dressing up as characters from the author's books.

Scrumdiddlyumptious chocolate biscuits were made by some while others got into character through role-play. Pupils learnt about the life and work of the famous author who was born in Cardiff, and they displayed their knowledge during the Roald Dahl gobblefunk quiz. Congratulations to Max Williams (Year 3) and Frankie Jones (Year 1), the winners of prizes for the best dressed characters. Max dressed as a very convincing Augustus Gloop and Frankie came to school dressed as Roald Dahl himself. Roald Dahl Day was a swash-boggling, splendid day at Ysgol Bro Hyddgen!

Ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol

45

Ar yr 22ain o Fedi eleni bu blwyddyn 5 & 6 yn mwynhau ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol i gael blas o'r Blitz gan Glynys y Siop. Profiad theatrig ac addysgol gwerth chweil.

On the 22/9/2016 year 5 & 6 enjoyed a visit to the National Library and the show: Y Blitz- Glenys y Siop. A truly worthwhile educational & theatrical experience.



Sioe Glenys y Siop – Byw drwy'r Blitz

Yn ddiweddar, cafodd plant blwyddyn 5 a 6 y Ffrwd Gymraeg gyfle i ddysgu am fywyd yn ystod y Blitz mewn sioe o'r enw Glenys y Siop a oedd yn cael ei pherfformio yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth fel rhan o Wyl Hanes Cymru i Blant. Cafodd y plant eu tywys yn ôl i ddyddiau'r Blitz, gyda'r actores Anwen Carlisle wrth iddi chwarae rhan Glenys y Siop, perchennog siop y gornel Rhondda Stores yn Abertawe. Ffocws y sioe oedd y tridiau o fomio a fu ar Abertawe gan y Luftwaffe yn 1941 a'r effaith yr oedd y rhyfel yn ei gael ar fywyd bob dydd. Cafodd y plant gyfle i fod yn rhan o'r sioe drwy chwarae cymeriadau oedd yn rhan o'r gymuned. Roedd yn gyfle ardderchog i ddysgu am fywyd y cyfnod: y blacowt, masgiau nwy, dogni, llochesi, faciws ac ati. Profiad cofiadwy a gwerth chweil!

Glenys y Siop' – Life During the Blitz

Recently, Year 5 & 6 pupils had the opportunity to learn about life during the Blitz when they attended a show performed by the actress Anwen Carlisle. The performance was hosted at the National Library of Wales where the Welsh History Festival for Children was held. The children were transported to the days of the Blitz to learn about the life of one Swansea resident, Glenys Myfanwy Jenkins, the owner of a corner shop. Focussing on the 'The Three Nights' Blitz which occurred 75 years ago when the Luftwaffe attacked the city of Swansea for three consecutive nights, the children learnt about what it was like to have lived through the terrifying nights of the Blitz in February 1941. Through the performance, the children understood how all aspects of everyday life were changed by rationing, the blackout, gas masks, shelters, evacuees and so on. A fantastic learning experience with history brought to life!

Gwasanaeth Diolchgarwch

Gwasanaeth Diolchgarwch y Campws Cynradd yn Eglwys Sant Pedr.

Primary Campus Thanksgiving Service at St Peter's Church.



@brohyddgen



46 Hyfforddiant CPR



Diolch yn fawr i Elen Chick am cynnal y hyfforddiant!

Thank you to Elen Chick for carrying out this training!



Volunteers from the Sixth Form have been busy CPR training with Elen Chick, the Powys Youth Worker. The Sixth Form will deliver CPR training to KS3 after Christmas. A huge thank you to The British Heart Foundation for their kind donation of a CPR kit.

Mae gwirfoddolwyr o'r Chweched Dosbarth wedi bod yn brysur yn ystod y tymor yn cael hyfforddiant CPR gyda Elen Chick, y Gweithiwr Ieuenctid ar gyfer Powys. Mi fydd y Chweched Dosbarth yn hyfforddi CA3 ar ôl y Nadolig. Diolch mawr i'r British Heart Foundation am eu rhodd o cit CPR.



Remembrance Service for Dylan Thomas at Westminster Abbey

47

Lucy Jenkins who sang in the Remembrance Service for Dylan Thomas at Westminster Abbey on Saturday 12.11.16



(Photo Above)

Left to Right: Geoff Haden (Chairman of the Dylan Thomas Society), Lucy Jenkins, Guy Masterson (actor), Hannah Ellis (Grand daughter of Dylan Thomas), Gwyn Griffiths (Dylan Thomas Sound Project) and Trefor Ellis (husband to Dylan's late daughter Aeronwy).

I sing with The Dylan Thomas Sound Project which puts music to some of Dylan Thomas' poems with the aim to make it more appealing to a younger audience because, let's face it, learning poetry can be a bit dull.

We were invited to perform 'Being But Men' at Westminster Abbey as part of the annual wreath-laying ceremony to mark the anniversary of Dylan's death. We also performed at a private party at the Wheatsheaf Tavern in Fitzrovia where Dylan used to drink and first met his wife Caitlin.

Check out our Facebook page (The Dylan Thomas Sound Project) and YouTube for some of our videos. In fact this weekend Cerys Hickman and I filmed for the latest video, 'A Child's Christmas in Wales' which will be posted very soon.

Lucy Jenkins (Year 10)

Band Pres Ieuenctid

Llongyfarchiadau mawr i Malachi (BI13) a Cerys (BI12) ar gael eu dewis i fod yn rhan o Fand Pres Ieuenctid Cymru. Da iawn chi!

Congratulations to Cerys (year 12) and Malachi (year 13) for being selected to be part of the National Youth Brass Band. Well done!



@brohyddgen



Gala Nofio / Urdd Swimming Gala



Llongyfarchiadau mawr i bawb gafodd eu dethol ac a fu'n cystadlu.

Congratulations to all who competed.



Ddydd Iau 4 Tachwedd cynhaliwyd Gala nofio'r Urdd a chafwyd prynhawn prysur o nofio cystadleuol. Braff gweld bod y gwerthoedd yr Olympics sef parch, cyfeillgarwch a rhagoriaeth bersonol yn cael eu gweithredu ymysg cystadleuwyr Bro Hyddgen.

Dyma'r disgyblion sy'n mynd trwodd i'r rownd nesaf yn y Drenewydd ar Ddydd Mercher, 30 Tachwedd:

The Urdd swimming gala was held on Thursday 4 November and a busy afternoon of competing was held. These are the pupils going through to the next round:

- Bechgyn / Boys Yr 5 a 6 – Cefn / Back – Ioan Reading
- Meched / Girls Yr 5 a 6 – Cefn / Back – Emma Fletcher
- Bechgyn / Boys Yr 3 a 4 – Broga / Breast – Finlay Thapa
- Bechgyn / Boys Yr 5 a 6 – Broga / Breast – Louis Roberts
- Meched / Girls Yr 5 a 6 – Broga / Breast – Beca Jones
- Bechgyn / Boys Yr 5 a 6 – Pili Pala / Butterfly – Ioan Reading
- Meched / Girls Yr 5 a 6 – Pili Pala / Butterfly – Beca Jones
- Bechgyn / Boys Yr 3 a 4 – Rhydd / Freestyle – Finlay Thapa
- Bechgyn / Boys Yr 5 a 6 – Rhydd / Freestyle – Aidan Roberts
- Meched / Girls Yr 5 a 6 – Rhydd / Freestyle – Emma Fletcher

Cyfnwidi Amrywiol / Medley Relay

- Bechgyn / Boys Yr 5 a 6 – Iestyn, Aidan, Ioan a Morus
- Meched / Girls Yr 5 a 6 – Olivia, Beca, Emma ac Enlli

Cyfnwidi Rhydd / Freestyle Relay

- Bechgyn / Boys Yr 5 a 6 – Iestyn, Aidan, Ioan a Louis
- Meched / Girls Yr 5 a 6 – Olivia, Beca, Emma ac Enlli

Ymweliad PC Mark Davies

49



Diolch i PC Mark Davies am ein helpu i arwain sesiynau ABaCh sy'n seiliedig ar gysyniadau pwysig iawn. Yn ystod sesiynau ABaCh CA3, rydym wedi astudio'r cysyniadau canlynol; Nodau Byd-Eang, Gwrth-fwlio, Peryglon Cyfryngau Cymdeithasol a CPR.

Thank you to PC Mark Davies from Dyfed Powys Police for helping us to deliver PSE sessions based on some very important topics. The topics covered in PSE sessions in KS3 are; The Dangers of Social Media, Anti-bullying, Global Goals and CPR.

Pêl droed yr Urdd – Dalgylch Bro Ddyfi

Roedd dau dîm Pêl droed bechgyn a un tîm merched yn cystadlu.

Tîm A yn curo eu tair gêm ac yn mynd trwodd i'r rownd nesaf yn y Drenewydd. Tîm y Merched hefyd yn curo tîm Merched Glantwymyn ac yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf. Cafodd Tîm B y bechgyn gem gyfartal yn erbyn Ysgol Llanbryn-mair ond colli bu ei hanes yn erbyn Glantwymyn a Tîm A Ysgol Bro Hyddgen.

There were two boys football teams and one girls football team competing. Team A won their four games and are going through to the next round at Newtown and also the girls team won, and go through to the next round. Team B drew against Llanbryn-mair school but lost to Glantwymyn and Team A Ysgol Bro Hyddgen.



@brohyddgen



Llythrennedd gwybodaeth yw gwybod pryd a pham mae arnoch angen gwybodaeth, ble i ddod o hyd iddi, a sut mae ei chloriannu, ei defnyddio a'i throsglwyddo mewn ffordd foeseogol. Mae angen i chi feddu ar lawer o sgiliau er mwyn bod yn llythrennog mewn gwybodaeth ac maent yn gofyn am ddealltwriaeth o'r canlynol:

- Yr angen am wybodaeth.
- Yr adnoddau sydd ar gael.
- Sut mae dod o hyd i wybodaeth.
- Yr angen i werthuso canlyniadau.
- Sut mae gweithio gyda chanlyniadau neu ddefnyddio canlyniadau.
- Moeseg a chyfrifoldeb defnyddio.
- Sut mae cyfleu neu rannu canfyddiadau
- Sut mae rheoli eich canfyddiadau.

Felly, beth yw'r problem?

"Beth am gwlo'r gair dinosoriaid?" Swnio'n gyfarwydd? Mae chwilio ar y we mor gyffredin, mae plant ifanc hyd yn oed yn gwybod beth yw ystyr 'gwlo'. Ond pan fydd angen i blant fynd ati go iawn i wneud gwaith ymchwil ar gyfer yr ysgol – neu dreiddio ymhellach i unrhyw bwnc – mae cael strategaethau yn eu helpu i wella eu canlyniadau. Mae chwilio call ar-lein yn gallu gwneud gwahaniaeth enfawr i ansawdd a pherthnasedd y cynnwys y byddant yn dod o hyd iddo ar y rhyngwyd.

Pam mae hyn yn bwysig?

Mae pawb yn gwybod bod llawer iawn o wybodaeth ar gael ar y Rhyngwyd. Ond dim ond cyfran fach iawn o'r wybodaeth hon fydd yn diwallu anghenion plentyn. Er bod y rhan fwyaf o blant ifanc yn gwybod sut mae teipio allweddair yn Google, efallai na fyddant yn deall bod sawl ffordd o chwilio am rywbeth, a bod rhai ffyrdd yn well na'i gilydd. Mae rhai peiriannau chwilio yn well na'i gilydd, ac yn fwy diogel, a heb gysylltiad â hysbysebwr!

Gall unrhyw un gyhoeddi ar y Rhyngwyd, felly nid yw pob safle mor ddibynadwy â'i gilydd. Mae gan fyfyrwyr hyn y gallu i amau, ond mae plant iau yn dueddol o greu'r hyn maent yn ei ddarllen a'i dderbyn fel y gwirionedd. Pan fydd plant yn dod o hyd i ffynonellau ar-lein nad ydynt o ansawdd da, y perygl yw y byddant yn defnyddio gwybodaeth anghywir, neu dim ond cael rhan o'r stori, neu, yn waeth na dim, yn colli'r cyfle i wirioneddol dysgu cymaint ag y bo modd am y pwnc.

Pan fydd plant yn defnyddio gwefan ar gyfer eu hymchwil, dylent wneud yn siŵr y gallant ymddiried ynddi. Yn ffodus, mae ffyrdd o werthuso pa mor ddibynadwy yw safle. Mae'n rhaid i ni roi cyfleoedd i ddisgyblion a myfyrwyr ddysgu chwilio a gwerthuso mewn modd cyfrifol.

Defnyddio gwybodaeth mewn modd cyfrifol

Mae pob un ohonom wedi arfer cael bob mathau o waith creadigol ar gael ar flaenau ein bysedd. Mae delweddau, fideos,

gwaith celf a gwaith ysgrifenedig pobl yn gallu ysbrydoli, ond mae'n hawdd eu cymryd hefyd heb feddwl ddwywaith. Rydym yn aml yn anghofio am y gyfraith ynghylch hawlfraint, sy'n amddiffyn gwaith creadigol pobl. Er ein bod yn meddwl bod gennym yr hawl i gymryd a defnyddio unrhyw beth a welwn ar-lein, nid yw'r Rhyngwyd yn rhydd i bawb ei ddefnyddio fel y mynnant. Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb dros ddilyn cyfraith sy'n ymwneud â hawlfraint a pharchu gwaith creadigol ar-lein.

Mae angen i ni ddysgu plant i ddeall mai lladrata yw lawrlwytho a rhannu cerddoriaeth a ffilmiau mewn modd anghyfreithlon. Rhaid addysgu disgyblion a myfyrwyr am ddefnyddio gwaith ar-lein sydd â hawlfraint, gan wneud yn siŵr eu bod yn cael caniatâd cyn defnyddio'r gwaith hwnnw, a dyfynnu'r gwaith a ddefnyddiant yn briodol. Dylent feddwl hefyd am sut byddent am ddiogelu eu gwaith creadigol eu hunain.

Felly pa awgrymiadau llythrennedd gwybodaeth yw'r rhai pwysicaf?

- Gwerthuso hygrededd gwefan.
- Helpu plentyn i ddadansoddi gwefan gan chwilio am gliwiau ynghylch ei chywirdeb. Dyma rai cwestiynau i'w gofyn sy'n helpu i weld ansawdd safle.
 - Pwy ysgrifennodd hyn? Gwnewch yn siŵr bod yr awdur neu'r sefydliad yn gredadwy drwy edrych ar eu teitl, arbenigedd a chefnidir.
 - Dot beth? Os yw'r cyfeiriad gwe yn gorffen gyda .edu, yna daw'r deunydd gan sefydliad academaidd; os yw'n gorffen gyda .gov, daw gan y Llywodraeth.
 - Beth yw'r ffynhonnell wybodaeth? Ai sefydliad neu bapur newydd adnabyddus sy'n gyfrifol am y safle?
 - Pa bryd y cafodd hyn ei ddiweddarau? Ydy'r safle wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar? Os nad yw, symudwch ymlaen.
 - I beth mae hyn yn gysylltiedig? Oedd y safle'n gysylltiedig â thudalen we arall rydych yn ymddiried ynddi?
- Cymharwch fwy nag un ffynhonnell. Dylai disgyblion a myfyrwyr ddefnyddio sawl safle, er mwyn sicrhau mwy o gywirdeb. Bydd hyn yn eu helpu i weld pa ddarn o wybodaeth sy'n ffaith neu'n ffug.
- Cadwch olwg am hysbysebion. Helpwch y myfyrwyr i sylwi pan fydd hysbysebwr yn ceisio eu targedu, a'u dysgu i gwestiynu beth mae'r hysbysebion yn ei ddweud.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi ar gael ar Hwb ac i athrawon, cymerwch olwg ar yr adnoddau diogelwch ar-lein sydd ar Hwb yn adnodd Llythrennedd Digidol a Dinasyddiaeth gan Common Sense Media.



Information Literacy

51

Information literacy is knowing when and why you need information, where to find it, and how to evaluate, use and communicate it in an ethical manner.

There are lots of skills you need to be information literate and they call for an understanding of:

- The need for information.
- The resources available.
- How to find information.
- The need to evaluate results.
- How to work with or exploit results.
- Ethics and responsibility of use.
- How to communicate or share your findings.
- How to manage your findings.

So what's the issue?

"Let's Google dinosaurs." Sound familiar? Searching the Web is so commonplace that even young children know what it means to "Google." But when children really need to do research for school – or dive deeper into any topic – it helps them to have some strategies for improving their results. Smart searching online can make a huge difference in the quality and relevance of the content they find on the Internet.

Why does it matter?

Everyone knows there's a huge amount of information on the Internet. But only a tiny fraction of this information will apply to a child's needs. Although most young children know how to type a keyword into Google, they may not understand that there are many ways to conduct a search, and that some are better than others, and some search engines are better than others, and safer, and don't link to advertisers!

Anyone can publish on the Internet, so not all sites are equally trustworthy. Older students have the ability to be sceptical, but younger children tend to believe what they read and accept it as the truth. When children find sources online that aren't of high quality, they risk using incorrect information, getting only part of the story, and worst of all, denying themselves the opportunity to truly learn as much as possible about a topic.

When children use a website for their research, they should make sure it's worthy of their trust. Fortunately, there are ways to evaluate the trustworthiness of a site. We need to give pupils and students opportunities to learn to search and evaluate responsibly.

Using information responsibly

We are all used to having all types of creative work available at our fingertips. People's writing, artwork, videos, and images can be inspiring, but they are also easy to take without thinking twice. We often forget about copyright law, which protects people's creative work. Even though we may feel we have the right to take and use anything we find online, the Internet is not a free-for-all. We all have responsibilities for following copyright law and respecting creative work online.

We need to teach children to understand that illegal downloading and sharing of music and movies is piracy, which is stealing. Pupils and students need to be educated about using copyrighted work online, making sure they get permission before using copyrighted work, and properly citing the work they use. They should also think about how they would want to protect their own creative work.

So what information literacy top tips are the most important?

- Evaluating a website's credibility.
- Help a child dissect a website for clues to its accuracy. Here are some questions to ask that help determine the quality of a site.
 - Who wrote this? Check to make sure the author or organization is credible by looking at their title, expertise, and background.
 - Dot what? If the Web address ends in .edu, then the material is from an academic institution; if it ends in .gov, it's from the Government
 - What is the source of information? Does the site come from a well-known newspaper or organization?
 - When was this updated? Has the site been updated recently? If not, move on.
 - What is this linked to? Was the site linked from another webpage that you trust?
- Compare multiple sources. Pupils and students should draw on several sites, for better accuracy. This will help them determine whether a piece of information is fact or fiction.
- Watch out for ads. Help students to notice when advertisers are trying to target them, and teach them to question what the ads are saying.

You can find all the information you need on Hwb and for teachers, have a look at the online safety resources on Hwb in the Common Sense Media Digital Literacy and Citizenship resource.





Sixth Form Glan Llyn Trip 2017



Gwasanaeth Diolchgarwch Campws Cynradd

Diolch yn fawr iawn i Emma Ames, Bethany Dennett and Bronwen Morgan-Jones am golygu yr papur newydd yma /

Thank you very much to Emma Ames, Bethany Dennett and Bronwen Morgan-Jones for editing this News Paper

